

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 9: Sut ydyn ni'n ei wneud?

Mae'r gweithgaredd yma i'w ddefnyddio gyda disgyblion y mae eu menter yn cynnwys cynhyrchion.

Amcan Dysgu

Cynnig cyfle i ddisgyblion weithio gydag eraill i greu cynnyrch addas.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Datrys problemau

Cysylltiadau

- Gweithio gyda Phobl Eraill
- Cyfathrebu

Trefniadaeth

- Cynllunio

Gweithgareddau dysgu

Gofynnwch i'r disgyblion drafod sut byddan nhw'n trefnu eu hunain i wneud eu cynhyrchion yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

Ystyriwch y cwestiynau canlynol:

- Beth ydych chi ei angen i wneud eich cynnyrch? e.e. offer, deunyddiau, gweithle.
- Pa mor ddiogel, dibynadwy a chynaliadwy ydy'ch cynnyrch?
- Faint ydych chi'n meddwl y bydd eu hangen arnoch chi/byddwch chi'n eu gwerthu?
- Faint ydych chi'n meddwl y bydd yn cymryd i wneud yr holl gynhyrchion y credwch y gallwch chi eu gwerthu?
- Ydych chi'n mynd i gymryd archebion am eich cynnyrch, neu wneud nifer penodedig neu gyfuniad o'r ddau?

Trafodwch gyda disgyblion gwahanol ddulliau o gynhyrchion.

Mae'r disgyblion yn gwneud y cynnyrch gan ddefnyddio dulliau cynhyrchu gwahanol, gyda'r disgyblion yn gweithio'n unigol neu mewn grwpiau. Gallai hyn fod yn weithgaredd cystadleuol.

Cofnodwch faint o amser mae'n cymryd i wneud un eitem a faint mae'n bosibl eu gwneud mewn un awr. Cyflwynwch ac esboniwch y cysyniad o reoli ansawdd. Os bydd cynhyrchion yn edrych ac yn teimlo'n dda, bydd pobl yn fwy tebygol o'u prynu. Wrth wneud y cynnyrch, anogwch y disgyblion i wirio ar bob cam bod eu gwaith o safon uchel.

Trafodwch gyda disgyblion y dull cynhyrchu mwyaf effeithiol iddyn nhw eu mabwysiadu am eu menter.

Gweithgaredd 9: Sut ydyn ni'n ei wneud?

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniad dysgu

Mae'r disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd mewn timau gyda chyfrifoldebau a rolau sydd wedi cael eu cytuno.

Adnoddau mae eu hangen

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol
- Deunyddiau i wneud eu cynnyrch

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Siarad
- Gwranddo
- Cydweithredu a thrafod.

Rhifedd

- Defnyddio sgiliau mesur.

2. Dylunio a thechnoleg

- Gweithio yn ôl eu manyleb i wneud cynhyrchion
- Dangos eu meddwl creadigol wrth ystyried a chofnodi atebion i broblemau sy'n codi wrth eu dylunio a'u gwneud.

3. ABCh

- Gweithio'n gydweithredol i ddatrys problemau.

